

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod	12/04/2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur yr adroddiad	Tony Ward / Chris Brown / Lowri Roberts
Teitl	Cerbydau Fflyd Gwastraff Newydd 5M - Dyfarnu'r Contract

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r broses a gynhaliwyd yn ystod yr ymarfer caffael ac yn argymhell dyfarnu contract i ddarparu 14 Cerbyd Adfer Adnoddau (RRV) 5M newydd fel rhan o'r prosiect ehangach i ailfodelu gwasanaethau gwastraff

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo dyfarnu'r contract er mwyn gallu rhoi archeb am yr 14 cerbyd gwastraff RRV 5M newydd. Mae'r dyfarniad tendro yn cynnwys 11 cerbyd gwastraff RRV 5M disel a 3 cerbyd gwastraff RRV 5M Allyriadau Isel iawn. Bydd y cerbydau allyriadau isel iawn yn cael eu hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu'r contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer yr 11 RRV 5M disel a 3 RRV 5M allyriadau isel iawn am gost o £2,712,231. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ariannu £2,217,231 a bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £495,000 i brynu'r 3 cerbyd allyriadau isel iawn. Gweler Atodiad 1 (Rhan 2) am fwy o fanylion ariannu.
- 3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'u hystyriaethau.

- 3.3. Bod penderfyniad y Cabinet yn cael ei roi ar waith ar unwaith oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i gyflenwi'r cerbydau RRV 5M mwyaf, ac (yr un mor bwysig) i sicrhau'r prisiau tendro o gofio'r ansicrwydd yn y farchnad a chwyddiant yn y prisiau sy'n gallu golygu bod y prisiau tendro yn cael eu tynnu'n ôl ar fyr rybudd.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Yr amcan bris cychwynnol ar gyfer caffael fflyd o 24 RRV oedd eu hangen i gefnogi'r model gwasanaeth newydd oedd yn yr achos busnes gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2018 oedd £2.554M, yn seiliedig ar fflyd RRV disel i gyd. Roedd y ffigwr hwn wedi'i seilio ar fodel fflyd cychwynnol oedd yn cynnwys hyd at 17 RRV 5M a 7 RRV llai, 24 cerbyd newydd i gyd.
- 4.2. Yn dilyn cwblhau trefnu'r llwybrau'r casglu newydd yn gynnar ym mis Rhagfyr 2021, cadarnhawyd mai o'r cyfanswm o 24 RRV oedd eu hangen ar gyfer y model casglu newydd, dim ond 14 o'r RRV 5M mwy fyddai eu hangen oherwydd problemau mynediad ar rai llwybrau gwledig llai. Bydd angen 10 RRV llai hefyd i gefnogi'r llwybrau casglu a fodolwyd a bydd y rhain yn destun ymarfer caffael ar wahân maes o law.
- 4.3. Ers i'r achos busnes gwreiddiol gael ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2018, mae costau unedau ar gyfer y fflyd wedi codi'n sylweddol (tua 23%) oherwydd y pandemig COVID-19 a grymoedd y farchnad byd-eang. Hefyd, mae'r gwasanaeth bellach yn dymuno caffael nifer o fodolau allyriadau isel iawn yn unol â nodau lleihau carbon Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ddinbych ac i gefnogi datgarboneiddio ein fflyd. Mae'r modelau allyriadau isel iawn yn llawer drytach na'r modelau disel safonol.
- 4.4. Mae'r cynnydd hwn mewn prisiau yn cael ei adlewyrchu yn y prisiau dychwelyd y tendr ar gyfer yr 14 RRV 5M sydd eu hangen (modelau Disel ac Allyriadau Isel iawn) sy'n destun yr adroddiad hwn, ac yn yr amcan bris diweddaraf am yr RRV llai sydd hefyd eu hangen drwy ymarferion caffael pellach.
- 4.5. Mae dadansoddiad llawn o'r amcan brisiau diweddaraf ar gyfer y fflyd sydd ei hangen, yn cynnwys costau'r 14 RRV 5M (11 disel a 3 allyriadau isel) sy'n destun yr Adroddiad Dyfarnu Contract hwn, yn Atodiad 1. Hefyd yn Atodiad 1 mae manylion y cyllid sy'n ei le, yn cynnwys cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â phwysau costau ac i gefnogi prynu'r cerbydau allyriadau isel iawn. Gellir gweld yr Adroddiad Gwerthuso Tendr yn Atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Er nad ydynt yn cael eu crybwyll yn uniongyrchol yn y Cynllun Corfforaethol presennol, bydd y newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd yn cael effaith bositif ar y Flaenoriaeth Gorfforaethol, "Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i Ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd". Bydd yn cynyddu nifer ac ansawdd y system ailgylchu a gesglir o aelwydydd, ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Bydd hefyd yn galluogi i ehangu busnesau lleol o bosib, gan arwain at gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Cyfanswm costau dyfarnu'r contract ar gyfer yr 14 RRV 5M yw **£2,712,231** gyda chyllid Cyngor Sir Ddinbych o **£2,217,231** ac mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'r gweddill sef **£495,000** ar gyfer prynu'r cerbydau allyriadau isel iawn. Gweler Atodiad 1 (Rhan 2) am fanylion y gyllideb a'r cyllid sydd yn ei le.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu contract i gaffael rhan o'r fflyd ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth gwastraff. Gweler Atodiad 3 am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les sy'n cael ei gyflawni ar gyfer yr holl Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff lle mae'r datblygiad ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn elfen allweddol i gefnogi'r model ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Ymgynghorwyd â'r Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd a'r Aelod Arweiniol Cyllid a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf drwy eu safle ar y Bwrdd Prosiect Gwastraff. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi'i gadeirio gan Bennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau ac yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect cyflwynir y wybodaeth ddiweddaraf ar y risg a'r safle bresennol o ran Costau i'w hadolygu ac i weithredu arnynt fel bo'r angen.

8.2. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o symud i fodel cyflenwi gwastraff newydd, yn cynnwys darparu fflyd newydd i gefnogi, ei gymeradwyo'n wreiddiol yn y Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018 ac mae diweddariadau pellach wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2019 a mis Mai 2021 a Sesiwn Frifio'r Cabinet ym mis Mawrth 2021. Ym mis Tachwedd 2021, cymeradwyodd y Cabinet yr ymarfer tendro.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r argymhelliad i ddyfarnu'r contract i'r cyflenwr a ffefrir i ddarparu'r cerbydau gwastraff allweddol a fanylir arnynt yn yr adroddiad yn rhan hanfodol o'r prosiect gwastraff cyffredinol. Felly caiff yr argymhellion eu cefnogi gan dybio y bydd yr achos busnes diwygiedig ar gyfer y prosiect cyffredinol a'r argymhellion cysylltiedig o ran dirprwyo (sydd hefyd ar y rhaglen hon) yn cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, dylid nodi, gan fod oes cerbydau fel rheol yn fyr mae pwysau yng nghyllidebau'r dyfodol yn debygol pan fydd angen newid y cerbydau. Bydd yn rhaid i'r gwasanaeth a'r adain gyllid weithio'n agos i sicrhau bod cyllid ar gael ar yr adeg briodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Risg bod cyflenwyr yn methu darparu'r cerbydau o fewn yr amserlen angenrheidiol. Mae'r farchnad gerbydau dan straen ar hyn o bryd, gan fod prinder byd eang o'r microsglodyn (lled-ddargludyddion). Mae'n bosibl y bydd pwysau allanol eraill yn effeithio ar gyflenwyr hefyd. Byddai effaith mawr; felly rydym yn cynnig dyfarnu'r contract ar unwaith pe bai'r Cabinet yn ei gymeradwyo.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Rhan II

11.2. Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

11.3. Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972